



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Paratoi ar gyfer hinsawdd sy'n newid

Rhan 5: Monitro ac Adolygu

**Canllawiau Statudol o dan Ddeddf Newid yn yr
Hinsawdd 2008**

Cydnabyddiaeth

Wrth baratoi'r Canllawiau hyn, mae canllawiau anstatudol sy'n bodoli eisoes, sef [Adapting to climate change: Workbook for public sector organisations](#) (Adaptation Scotland, 2011) yn bennaf, wedi dylanwadu arnom. Mae'r ddogfen yn ei thro yn cydnabod ei dyled i ganllawiau eraill, gan gynnwys canllawiau [Partneriaeth Effeithiau Hinsawdd y DU](#) (UKCIP) a [International Council for Local Environmental Initiatives \(ICLEI\) Canada](#).


Os oes gennych unrhyw syniadau o ran gwella'r Canllawiau, cysylltwch â Thîm Newid yn yr Hinsawdd Llywodraeth Cymru:

climate-change@cymru.gsi.gov.uk

0300 060 4400 (Cymraeg)

0300 060 3300 (Saesneg)

Cyhoeddwyd Rhan 5 ym mis Mawrth 2013



Rhan 5: Monitro ac Adolygu

Dylid ystyried Cam 5 yn broses iterus sy'n cynnwys asesu a yw'r nodau a'r amcanion a osodwyd gan eich sefydliad a phartneriaid wedi'u cyflawni.

Nodwch fod y rhan hon o'r llyfr gwaith yn cael ei datblygu ac y bydd y deunydd yn ehangu dros amser.

Mae'r cam hwn yn cynnwys:

- **Pennod 12:** Adolygu'r cynllun gweithredu ar gyfer ymaddasu ac adrodd ar gynnydd. **2**

Pennod 12: Adolygu'r Cynllun Gweithredu ar Gyfer Ymaddasu ac Adrodd ar Gynnydd

Diben	Adolygu'r cynllun ac adrodd ar gynnydd.
Cynnwys	<ul style="list-style-type: none"> • Asesu gwybodaeth newydd. • Gwerthuso effeithiolrwydd y gweithredu. • Diweddarau'r cynllun ar gyfer ymaddasu. • Adrodd ar gynnydd.

Bydd y cam hwn yn eich galluogi chi i adrodd ar gynnydd a diweddarau eich cynllun gweithredu ar gyfer ymaddasu a ddatblygwyd ym mhennod 10.

Dylai ymaddasu i newid yn yr hinsawdd fod yn broses iterus, gan ddefnyddio canlyniadau a'r gwersi a ddysgwyd o'r gwaith a gyflawnwyd i gynorthwyo a gwella gwaith yn y dyfodol. Mae camau yn y rhan hon o'r gwaith yn cynnwys:

- Asesu gwybodaeth newydd.
- Gwerthuso effeithiolrwydd y gweithredu.
- Diweddarau'r cynllun ar gyfer ymaddasu.
- Adrodd ar gynnydd.

Dylai monitro, fel y'i heglurir yn eich cynllun ar gyfer ymaddasu, alluogi eich sefydliad i archwilio'r gwersi a ddysgwyd drwy gydol ei weithrediad a chanfod a yw cyd-destun eich risgiau a'ch peryglon wedi newid ynteu a yw rhannau o'r ymchwil sylfaenol bellach wedi dyddio. Mae'n ymarfer da i amserlennu adolygiad sy'n clymu â chylchoedd cynllunio sefydliadol. Mae adolygiad yn darparu cyfle i ganolbwyntio ar nodau ac amcanion y cynllun, a diweddarau'r cynllun ar sail gwybodaeth a dadansoddiad newydd.

Asesu gwybodaeth newydd

Mae gwybodaeth newydd am risgiau presennol a risgiau yn y dyfodol i'ch sefydliad neu faes gwasanaeth, rhagamcanion hinsawdd, tueddiadau o ran newid diweddar yn yr hinsawdd ac effeithiau dilynol yn ymddangos yn barhaus. Dylid ystyried yr wybodaeth hon yn rheolaidd i sicrhau bod y tybiaethau y seilir eich gwaith ymaddasu arnynt yn parhau'n gyfredol. Gallai polisiâu, meysydd blaenoriaeth, problemau, heriau a buddiannau rhanddeiliaid newydd ymddangos dros amser a bydd angen ymgorffori'r rhain. Wrth adolygu eich cynllun ar gyfer ymaddasu gallech ystyried y canlynol:

- A yw'r gyrwyr (gwleidyddol yn ogystal â chymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol) wedi newid?
- A gafwyd symudiad mewn arweinyddiaeth wleidyddol neu farn gyhoeddus ers mabwysiadu'r cynllun?
- A yw canfyddiadau ymchwil newydd wedi gwella neu newid dealltwriaeth am beryglon newid yn yr hinsawdd i'ch sefydliad?
- A yw peryglon newid yn yr hinsawdd i'ch sefydliad wedi newid e.e. gyda chaffael/colli/ adleoli asedau, neu gapasiti gwell i ymaddasu o fewn y sefydliad?
- A yw'r weledigaeth, y nodau a'r amcanion yn dal i fod yn berthnasol?
- Pa gynnydd sydd wedi'i wneud i gyflenwi'r gweithredoedd ymaddasu?
- Beth mae eich sefydliad wedi'i ddysgu o lwyddiant neu fethiant gweithredoedd ymaddasu?
- A oes cyfleoedd newydd y gellid manteisio arnynt?
- A oes rhwystrau i'w goresgyn?
- A oes unrhyw drothwyon hollbwysig wedi'u cyrraedd?

Gallai fod yn werthfawr i gynnal adolygiad o'r cwestiynau hyn gyda'ch cydweithwyr, partneriaid a rhanddeiliaid ehangach er mwyn sicrhau dealltwriaeth newydd, dysgu o'u profiad nhw a chynllunio ar gyfer diweddarau'r cynllun ar gyfer ymaddasu.

Gwerthuso effeithiolrwydd y gweithredu

Gellir olrhain effeithiolrwydd y cynllun ar gyfer ymaddasu yn erbyn yr amserlen weithredu a gynhwysir yn y cynllun a'r wybodaeth ddangosol a sylfaenol a nodwyd wrth ddatblygu'r cynllun. Mae hyn hefyd yn gymwys i weithredoedd sydd wedi'u hintegreiddio ar draws cynlluniau a strategaethau sefydliadol.

Mae olrhain cynnydd yn rhoi cyfle i'ch sefydliad asesu a ydych chi'n cyflawni eich nodau a'ch amcanion o ran ymaddasu, a dylai gwersi a ddysgir drwy roi'r cynllun ar waith a gwaith gan sefydliadau eraill hefyd gynorthwyo â datblygiad parhaus eich gwaith ymaddasu.

Gallech ystyried y cwestiynau canlynol:

- Faint o weithredoedd sydd wedi'u cyflawni gan amrywiol adrannau?
- Faint o adrannau/staff sydd wedi cyfrannu at roi camau ymaddasu ar waith?
- Sut ydych chi wedi cynnwys rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu ar gyfer ymaddasu a'i roi ar waith?
- A oes partneriaethau rhanddeiliaid a chymunedol wedi'u sefydlu i alluogi penderfyniadau cadarn o ran cynllunio ar gyfer ymaddasu?

- I ba raddau ydych chi wedi cynyddu capasiti cyffredinol a thechnegol eich sefydliad i baratoi ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd?
- Sut mae gwybodaeth am yr hinsawdd yn cael ei hystyried yn y broses benderfynu yn eich sefydliad?
- Faint o gefnogaeth sydd ymhlith staff a rhanddeiliaid i baratoi ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd?
- Faint o allu sydd gan eich strategaethau, cynlluniau a phrosesau i wrthsefyll hinsawdd sy'n newid?

Mae'n hanfodol fod gweithdrefnau'n cael eu sefydlu i fonitro sut mae pob gweithred ymaddasu yn datblygu. Mae'n bosibl fod gan eich sefydliad systemau monitro perfformiad eisoes. Os felly y peth gorau yw ymgorffori'r cynllun gweithredu ar gyfer ymaddasu yn y systemau cyfredol.

Os nad yw'n bosibl defnyddio systemau cyfredol, yna efallai y bydd angen sefydlu prosesau newydd. Er enghraifft gellid monitro cynnydd drwy adrodd bob mis neu bob chwarter i'r tîm ymaddasu neu gorff ar lefel uwch sy'n gwneud penderfyniadau.

Diweddarau'r cynllun ar gyfer ymaddasu

Yng ngoleuni gwybodaeth, dealltwriaeth a dysgu newydd, mae'n werth diweddarau eich cynllun ar gyfer ymaddasu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n ffres ac yn berthnasol i'r sawl sy'n ei roi ar waith. Dylech hefyd adolygu cyfleoedd i integreiddio gweithredoedd ymaddasu ar draws cynlluniau a pholisïau sefydliadol newydd a'r rhai sy'n cael eu diweddarau.

Dylech ystyried y canlynol:

1. Creu briffiad newydd i benderfynwyr ar lefel uwch.
2. Adnewyddu ymrwymiad eich adran/maes gwasanaeth a'ch cymuned o randdeiliaid.
3. Creu rhestr o weithredoedd na chafodd eu rhoi ar waith yn y rownd gyntaf.
4. Diweddarau eich asesiad o beryglon a'ch asesiad risg.
5. Cynnal asesiad risg ar gyfer peryglon canolig-isel.
6. Dynodi opsiynau ar gyfer ymaddasu i ymdrin ag effeithiau newydd.
7. Asesu trothwyon hollbwysig i weld a ydynt yn gadarn neu a ydynt wedi'u cyrraedd.
8. Cyfathrebu llwyddiannau.
9. Adnewyddu'r data sylfaenol.
10. Adolygu a diweddarau dangosyddion a thargedau.
11. Asesu cyfleoedd cyllido.
12. Diweddarau'r amserlen weithredu.

Adrodd ar gynnydd

Bydd eich sefydliad a rhanddeiliaid sydd wedi bod â rhan yn y broses cynllunio ar gyfer ymaddasu yn hanfodol wrth reoli a chydlynu gweithrediad y cynllun ar gyfer ymaddasu. Mae'n hanfodol bod cynnydd yn cael ei fonitro a'i adrodd i fforwm ar lefel uwch sy'n gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn sicrhau bod proffil a momentwm ymaddasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd yn cael eu cynnal.

Heb os bydd angen i chi neilltuo cyfrifoldeb am olrhain gwaith y sawl sy'n gyfrifol am roi'r camau gweithredu ar waith ar draws gwahanol rannau o'r sefydliad. Bydd adrodd ar ganlyniadau'r cynllun a chyfathrebu'r wybodaeth hon yn eang yn hanfodol i gynnal ymglymiad rhanddeiliaid yn fersiwn nesaf y cynllun a fydd wedi'i ddiweddarau.